# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD GWENER, 13 MAI 2016 AM 10.00AM

**YN BRESENNOL:** Y cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| A C S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| J P Curtice | V M Evans | P. Lloyd |
| K E Marsh | H M Morris | C L Philpott |

| Swyddog(ion) | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| L Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

128 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A C S Colburn, D W Cole, P Downing, V M Evans a T H Rees.

129 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddion canlynol:

Y Cynghorydd P Lloyd - Personol - Cofnod rhif 132 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Drwyddedu Cerbyd Hurio Preifat Cyfyngedig - Ford Galaxy - Rhif Cofrestru WX53 AFO - Mr L Jones - Rwyf yn adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorydd Lloyd y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei thrafod.

Y Cynghorydd P Lloyd - Personol - Cofnod rhif 133 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Drwyddedu Cerbyd Hurio Preifat - Ford S Max - Rhif Cofrestru GX07 BHK - Mr D Jones - Rwyf yn adnabod yr ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorydd Lloyd y cyfarfod cyn i'r eitem hon gael ei thrafod.

130 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2016 yn gofnod cywir.

131 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG - VAUXHALL VECTRA, RHIF COFRESTRU NA55 BBU - MR M BENJAMIN.**

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch y derbyniwyd cais i drwyddedu cerbyd hurio preifat gan Mr M Benjamin. Vauxhall Vectra, rhif cofrestru NA55 BBU oedd y cerbyd a gallai gludo pedwar teithiwr.

Nid oedd y cerbyd yn cydymffurfio â'r meini prawf trwyddedu presennol a nodwyd gan yr awdurdod oherwydd ei oed.

Nododd aelodau yr arolygiadau a'r dogfennau, Adran Trafnidiaeth - Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Arweiniad Arfer Gorau: Mawrth 2010, a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thrwyddedu Cerbydau Hurio Preifat.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i Mr Benjamin a ymatebodd yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** cais a wnaed gan Mr M Benjamin am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat mewn perthynas â'r Vauxhall Vectra, Rhif Cofrestru NA55 BBU, a'i adnewyddu yn ôl teilyngdod.

## 132 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG - FORD GALAXY, RHIF COFRESTRU WX53 AFO - MR L JONES.

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch y derbyniwyd cais i drwyddedu cerbyd hurio preifat gan Mr L Jones. Ford Galaxy, rhif cofrestru WX53 AF0 oedd y cerbyd a gallai gludo chwech o deithwyr.

Nid oedd y cerbyd yn Cydymffurfio â'r meini prawf trwyddededau presennol a nodwyd gan yr Awdurdod oherwydd ei oed.

Nododd aelodau yr arolygiadau a'r dogfennau, Adran Trafnidiaeth - Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Arweiniad Arfer Gorau: Mawrth 2010, a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thrwyddedu cerbydau hurio preifat.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i Mr L Jones a ymatebodd yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** cais a wnaed gan Mr L Jones am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â'r Ford Galaxy, rhif cofrestru WX53 AF0, a'i adnewyddu ar sail teilyngdod.

## 133 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT CYFYNGEDIG - FORD S MAX - RHIF COFRESTRU GX07 BHK - MR D JONES.

Nododd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch y derbyniwyd cais i drwyddedu cerbyd hurio preifat gan Mr D Jones. Ford S Max, rhif cofrestru GX07 BHK oedd y cerbyd a gallai gludo chwech o deithwyr.

Nid oedd y cerbyd yn Cydymffurfio â'r meini prawf trwyddedu presennol a nodwyd gan yr awdurdod oherwydd ei oed.

Nododd aelodau yr arolygiadau a'r dogfennau, Adran Trafnidiaeth - Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat: Arweiniad Arfer Gorau: Mawrth 2010, a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thrwyddedu cerbydau hurio preifat.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i Mr L Jones a ymatebodd yn yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** cais a wnaed gan Mr L Jones am drwydded cerbyd hurio preifat mewn perthynas â'r Ford Galaxy, rhif cofrestru WX53 AF0, a'i adnewyddu ar sail teilyngdod.

## 134 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 135 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR DAU FATHODYN, PERCHENNOG CERBYD HACNI – AA.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag AA.

Amlinellodd AA y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r gollfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

**a)** Byddai AA yn derbyn llythyr o rybudd gan nodi fod rhaid i AA, yn y dyfodol, ymddwyn mewn modd priodol fel gyrrwr tacsi gan ystyried diogelwch y cyhoedd sy'n teithio. Yn ogystal, nid oedd y Pwyllgor yn disgwyl gweld AA eto; a
b) Ni chymerir unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â thrwydded y cerbyd.

## 136 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 – TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT – CWJ.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â CWJ.

Amlinellodd CAW y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r digwyddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y byddai CWJ yn derbyn llythyr o rybudd ynghylch ymddygiad yn y dyfodol gan bwysleisio'n benodol fod ymddygiad CWJ yn is na'r hyn a ddisgwylir gan yrrwr tacsi sydd wedi'i drwyddedu gan Ddinas a Sir Abertawe.

137 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - MDM.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir o ran MDM.

Amlinellodd MDM y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r digwyddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** cais a wnaed gan MDM am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.21 am

**CADEIRYDD**